# Cronfa Grant Datblygu Busnes Y Fro
# Nodiadau Canllaw

**Cyn llenwi ffurflen gais, dylai ymgeiswyr ddarllen y Nodiadau Canllaw hyn ac yna gysylltu â'r Tîm Datblygu Economaidd i drafod eich syniad prosiect.**

businessfund@valeofglamorgan.gov.uk

**Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin?**

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (CFfGDU) yn rhan o ymrwymiad ehangach y llywodraeth i uwchraddio pob rhan o'r DU. Mae'n rhoi cyllid ar gyfer buddsoddiad lleol rhwng 2022 a 2025. Prif nod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw meithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd mewn bywyd ledled y DU. Mae tair blaenoriaeth buddsoddi yn sail i'r nod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o ymyraethau cymwys i greu pecyn ariannu hyblyg**.**

Mae tair Blaenoriaeth Buddsoddi ar gyfer cronfa CFfGDU:

**Cymunedau a Lle**... galluogi lleoedd i fuddsoddi i adfer eu gofodau a'u perthnasau cymunedol a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygu economaidd ar lefel y gymdogaeth;

**Cefnogi busnes lleol**... galluogi lleoedd i ariannu ymyriadau sy'n helpu busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu; a

**Pobl a Sgiliau**... helpu i leihau'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu rhag cael gwaith a'u helpu i symud tuag at waith ac addysg. O dan y flaenoriaeth Pobl a Sgiliau, mae 'Lluosi' neu 'Multiply' yn benodol ar gyfer gwella sgiliau rhifedd i oedolion trwy diwtora personol am ddim, hyfforddiant digidol, a chyrsiau hyblyg.

Ariennir Cronfa Grant Datblygu Busnes y Fro drwy'r thema Cefnogi Busnesau Lleol.

Mae rhan o'r gronfa ar gael i bob awdurdod. I gael ei ran, rhaid amlinellu ei flaenoriaethau buddsoddi a dewis rhestr o ymyriadau perthnasol i'r ardal. Mae'r ymyriadau ar gyfer y Thema Cefnogi Busnesau Lleol fel a ganlyn:

## Cefnogi Busnesau Lleol

Datblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr (W17)
Grantiau ymchwil a datblygu ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau arloesol (W19)
Seilwaith mentergarwch a phrosiectau safleoedd cyflogaeth / arloesi (W22)
Cryfhau ecosystemau mentergarwch lleol (W23)
Canolfannau hyfforddi, cynigion cymorth busnes, unedau meithrin a chyflymu (W24)
Datgarboneiddio wrth dyfu'r economi leol (W29)
Astudiaethau dichonoldeb perthnasol (W14)

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa ym Mro Morgannwg ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau uchod, a rhaid gwireddu'r allbynnau a'r deilliannau cysylltiedig. (Gweler Atodiad A).

### Cronfa Grant Datblygu Busnes Y Fro

Mae Cronfa Datblygu Busnes y Fro yn cynnig darparu cymorth ariannol i fusnesau sefydledig ym Mro Morgannwg, ar draws pob sector diwydiant. Nod y gronfa yw meithrin twf a datblygiad a galluogi busnesau i arloesi, datgarboneiddio a thyfu.

Bydd y Gronfa Grant yn ysgogi twf economaidd fel ehangu busnes, arallgyfeirio, arloesi a chreu swyddi sydd i gyd yn cyfrannu at dwf a datblygiad economaidd cyffredinol yn y Fro.

Bydd grantiau o bob maint yn cael eu cynnig am 50% o arian grant, 50% o arian cyfatebol ar gyfer prosiectau.

Bydd y grantiau hyn ar gael i fusnesau sefydledig sydd wedi bod yn masnachu am 12 mis neu fwy

Y prif themâu cymhwysedd ar gyfer y gronfa fydd:

- Prosiectau sy'n galluogi busnesau i dyfu a datblygu
- Prosiectau sy'n galluogi busnesau i arloesi ac arallgyfeirio
- Prosiectau sy'n galluogi busnesau i ddatgarboneiddio

### Sut mae gwneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen datganiad o ddiddordeb trwy ein gwefan www.valeofglamorgan.gov.uk/valebusinessfund. Bydd y datganiad o ddiddordeb yn cael ei asesu gan swyddog grant o fewn 5 diwrnod gwaith, ac os penderfynir eu bod yn gymwys, anfonir ffurflen gais Cronfa Datblygu Busnes y Fro at yr ymgeiswyr i'w chwblhau:

Byddwn yn rhoi ffurflen gais addas i chi o ran swm y grant yr ydych yn gofyn amdano. Fel arfer bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Gall hynny gynnwys tystiolaeth o unrhyw ganiatâd neu drwyddedau sydd eu hangen i'ch galluogi i wneud eich prosiect ac o ran eich dyfynbrisiau. . Nid ystyrir ffurflenni cais anghyflawn na rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol. Rhaid cyflwyno pob cais i'r blwch post businessfund@valeofglamorgan.gov.uk ac ni chaniateir copïau caled.

## Pryd galla I wneud cais?

Gallwch chi gyflwyno cais unrhyw bryd. Byddwn ni'n ceisio rhoi adborth ar eich cais a rhoi gwybod os yw'n addas ar gyfer asesiad o fewn 4 wythnos ar ôl i chi ei gyflwyno. Pan fydd yn barod ar gyfer asesiad, byddwn ni'n ceisio rhoi gwybod yr ateb o fewn wyth wythnos.

## Pwy all wneud cais?

- Busnesau cyfredol o Micro i Dwf. Rhaid bod pob busnes wedi bod yn masnachu am dros 12 mis i fod yn gymwys. Gall busnesau fod o bob sector diwydiant.
- Sefydliadau Cymorth Busnes sydd wedi bod yn masnachu am dros 12 mis.
- Mae Unig Fasnachwyr, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Cwmnïau Cydweithredol a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Mentrau Cymdeithasol Cofrestredig yn gymwys i wneud cais.
- Rhaid i bob ymgeisydd gael cyfeiriad Busnes Bro Morgannwg.
- BBaCh (busnesau bach a chanolig) (llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan £50 miliwn)

Os ydych chi'n fusnes newydd ac yn chwilio am gyllid, gweler ein Bwrsariaeth Dechrau Busnes y Fro: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Vale-Start-Up-Business-Bursary.aspx

*Bydd pob ymgeisydd yn destun asesiad diwydrwydd dyladwy i benderfynu ar ei addasrwydd fel ymgeisydd. Gall hyn gynnwys gwiriadau credyd ymysg eraill, a chaiff ei wneud cyn i gais gael ei gyflwyno i'r panel.*

## Rheoli Cymorthdaliadau

Mae Cronfa Datblygu Busnes y Fro yn cael ei dyfarnu o dan Reolau Cymhorthdal y DU. Rhaid i bob cais hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheolaeth cymhorthdal canllawiau Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Os nad yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol bod y prosiect arfaethedig yn cydymffurfio o dan Drefn Rheoli Cymhorthdal y DU, gellir ei ystyried yn anghymwys a gallai eich cais gael ei wrthod.

## Faint gallaf I wneud cais amdano?

| Grantiau Bach | Grantiau Canolig | Grantiau Mawr |
|---|---|---|
| Prosiectau sy'n ceisio cyllid o £5,000-£15,000. | Prosiectau sy'n ceisio cyllid o £15,001-£50,000. | Prosiectau sy'n ceisio cyllid o £50,001-£300,000. |

## Am ba mor hir mae'r cyllid yn berthnasol?

Rhaid gwario cyllid erbyn mis Mawrth 2025 gyda chostau blynyddol wedi'u nodi dros flynyddoedd ariannol. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n gallu dangos cyflawnadwyedd erbyn mis Mawrth 2024. Bydd rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyllid i gael ei wario yn y flwyddyn ariannol hon wneud cais am gyllid erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Dim ond un cais fydd yn cael ei dderbyn fesul busnes.

## Ar beth gellir gwario'r arian?

Nid rhestr lawn yw hon a gall newid os bydd gwybodaeth gan Lywodraeth y DU yn newid. Yn ogystal, gall rhai themâu buddsoddi ganiatáu gweithgaredd cymwys gwahanol. Cofiwch fod yn rhaid i holl weithgarwch y prosiect ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau ar dudalen dau.

- ✓ Astudiaethau Dichonoldeb
- ✓ Prynu a llogi offer, peiriannau neu asedau eraill
- ✓ Costau marchnata a chyfieithu
- ✓ Ymchwil a datblygu
- ✓ Gwaith cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau a mannau agored
- ✓ Costau ymchwil ac ymgynghori eraill
- ✓ Costau Datblygu Ymchwil
- ✓ Costau gweithredu prosiectau
- ✓ Hyfforddiant
- ✓ Teithio a chynhaliaeth cysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr
- ✓ TAW nad oes modd ei hadennill
- ✓ Llogi lleoliad

## Ar beth na ellir gwario'r arian??

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent)
- Projectau sy'n fwy priodol i gael cymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor
- Prosiectau sydd heb ddangos yr angen
- Stoc a deunyddiau ar gyfer cynhyrchu
- Costau prosiect cyn i ni gadarnhau ein cynnig grant
- Eitemau sydd o fudd i bobl unigol yn bennaf
- Busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol penodol; hapchwarae; pornograffi; darparu gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; a busnesau eraill y bernir eu bod yn 'newydd a dadleuol' gan y Cyngor.
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol
- Gwaith trwsio a chynnal arferol - e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair
- Prosiectau sydd ddim yn digwydd ym Mro Morgannwg
- TAW y mae modd ei adfer

## Determining project costs

Bydd gofyn i bob prosiect roi 50% o gyfanswm cost y prosiect.
Dylai costau pob prosiect fod yn gywir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Does dim ffordd i brosiectau llwyddiannus ofyn am arian ychwanegol oherwydd nad oedd wedi'i gostio'n gywir. Felly, dylid costio prosiectau ar sail dyfynbrisiau neu brofiad diweddar. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd tendro canlynol cyn y bydd grantiau'n cael eu talu, ac rydym yn cynghori'n gryf bod hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cais.

| Amcangyfrif o'r gwerth | Camau Tendro Gofynnol |
|---|---|
| Hyd at £2,499 | Gwobr uniongyrchol |
| £2,500-£24,999 | 3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig wedi eu ceisio gan gyflenwyr perthnasol nwyddau, gwaith a/neu wasanaethau |
| Dros £25,000 | Proses dendro ffurfiol |

## Allbynnau a Deilliannau

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei ariannu gan y gronfa ym Mro Morgannwg ymwneud ag un neu fwy o'r ymyriadau ar dudalen dau, a rhaid gwireddu'r allbynnau a'r deilliannau cysylltiedig. Gellir gweld rhestr lawn o Allbynnau a Deilliannau yn Atodiad A. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o gyflawni'r Allbynnau a Deilliannau disgwyliedig; Bydd rhestr lawn o'r dystiolaeth a awgrymir yn cael ei rhoi i ymgeiswyr llwyddiannus.

## Sut caiff y grant ei dalu?

Bydd y grant yn cael ei dalu yn unol â'r telerau ac amodau yn y llythyr ariannu. Bydd y grant fel arfer yn cael ei dalu ar ôl y gwariant ac yn amodol ar gyflwyno tystiolaeth lawn o wariant i'r Cyngor yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth ychwanegol o weithgarwch prosiect sy'n ofynnol i brofi Allbynnau a Deilliannau'r prosiect. Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai hyn achosi anawsterau gwirioneddol i sefydliadau bach, bydd taliadau ymlaen llaw yn cael eu hystyried. I sefydliadau a fyddai'n gweld hyn yn afresymol i gyflawni eu prosiect, siaradwch ag aelod o'r tîm cyn cyflwyno eich cais.

**Sut y caiff fy nghais ei asesu?**

| | Maen Prawf Blaenoriaeth | Sgôr |
|---|---|---|
| **1** | Addasrwydd strategol o ran Ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin | 0 - 20 |
| **2** | Gwerth am arian, gan gynnwys cytuno i nifer gymesur o Allbynnau a Deilliannau ar gyfer lefel cyllid y cais. | 0 - 20 |
| **3** | Tystiolaeth o angen gan gynnwys sut y bydd y prosiect yn helpu'r busnes i naill ai:<br>• Tyfu a datblygu.<br>• Galluogi busnesau i arloesi ac arallgyfeirio.<br>• Galluogi'r busnesau i ddatgarboneiddio. | 0 – 20 |
| **4** | Mae'r prosiect yn ei hanfod yn gadarn, wedi'i gynllunio'n dda gyda risgiau wedi'u rheoli | 0 - 20 |
| **5** | Y nodau llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio<br>Efallai y bydd y ddolen hon yn ddefnyddiol | 0 -20 |
| | **Total** | **/100** |

Rhaid i bob prosiect gael sgôr basio o 70 er mwyn ystyried ei ariannu, gan gynnwys isafswm o 5 fesul maen prawf.

## Atodiad Allbynau a Deilliannau

*Sylwch nad yr isafswm disgwyliedig o brosiectau yw'r ffigurau hyn, ond targedau ledled Bro Morgannwg.*

| Cefnogi Busnesau Lleol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymyriad** | Allbynnau | | Deilliannau | |
| **W17 -** Cyllid ar gyfer datblygu a hyrwyddo (masnach a defnyddiwr) yr economi ymwelwyr, fel atyniadau lleol, llwybrau, teithiau a chynhyrchion twristiaeth yn fwy cyffredinol. | • Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth nad yw'n ariannol<br>• Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir | 50<br>2 | • Mwy o ymwelwyr<br>• Gwell canfyddiad o atyniadau % | 5<br>5 |
| **W19** - Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ar lefel leol. Buddsoddiad i gefnogi tryledu gwybodaeth a gweithgareddau arloesi, mewn meysydd sy'n bwysig yn economaidd a meysydd sy'n dod i'r amlwg. Cefnogi masnacheiddio syniadau, annog cydweithio a chyflymu'r llwybr i'r farchnad fel bod mwy o syniadau'n troi'n arferion diwydiannol a masnachol. Buddsoddiad mewn canolfannau hyfforddi doethurol. | • Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth nad yw'n ariannol<br>• Nifer y busnesau sy'n derbyn grantiau<br>• Nifer y darpar entrepreneuriaid a gafodd gymorth i fod yn barod i fentro i fyd busnes | 100<br>50<br>50 | • Nifer y busnesau newydd a grëwyd<br>• Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd neu well<br>• Nifer y cynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad<br>• Nifer y busnesau sydd â chynhyrchiant gwell | 10<br>30<br>15<br>15 |
| **W22 -** Buddsoddi mewn seilwaith menter a phrosiectau datblygu | • Nifer y busnesau sy'n derbyn | 80 | • Swyddi a grëwyd | 12<br>10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| safle cyflogaeth/arloesi. Gall hyn helpu i ddatgloi prosiectau datblygu safle a fydd yn cefnogi twf mewn mannau. | cymorth nad yw'n ariannol<br>• Nifer y darpar entrepreneuriaid a gafodd gymorth i fod yn barod i fentro i fyd busnes<br>• Nifer yr adeiladau masnachol a ddatblygwyd neu a wellwyd | 40<br>1 | • Nifer y busnesau newydd a grëwyd | |
| **W23 -** Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol, a chefnogi busnesau ar bob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys drwy rwydweithiau lleol. | • Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth nad yw'n ariannol<br>• Nifer y busnesau sy'n derbyn grantiau<br>• Nifer y darpar entrepreneuriaid a gafodd gymorth i fod yn barod i fentro i fyd busnes | 240<br>50<br>120 | • Swyddi a grëwyd<br>• Nifer y busnesau newydd a grëwyd | 97<br>24 |
| **W24 -** Cyllid ar gyfer hybiau hyfforddi newydd a gwelliannau i rai sydd eisoes yn bodoli, cynigion cymorth busnes, 'deoryddion' a 'chyflymwyr' ar gyfer menter leol (gan gynnwys menter gymdeithasol) a all gefnogi entrepreneuriaid a busnesau newydd drwy gamau cynnar datblygiad a thwf drwy gynnig cyfuniad o wasanaethau gan gynnwys rheoli cyfrif, | • Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth nad yw'n ariannol<br>• Nifer y busnesau sy'n derbyn grantiau<br>• Nifer y darpar entrepreneuriaid a gafodd gymorth i fod yn barod i fentro i fyd busnes | 216<br>26<br>108 | • Swyddi a grëwyd<br>• Nifer y busnesau newydd a grëwyd | 82<br>22 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cyngor, adnoddau, hyfforddiant, mentoriaeth a mynediad i fan gwaith. | | | | |
| **W29** - Cefnogi datgarboneiddio a gwella'r amgylchedd naturiol wrth dyfu'r economi leol. Mabwysiadu dull systemau-cyfan o fuddsoddi mewn seilwaith i ddarparu datgarboneiddio effeithiol ar draws ynni, adeiladau a thrafnidiaeth a thu hwnt, yn unol â'n targed hinsawdd sy'n gyfreithiol rwymol. Gwneud y mwyaf o gryfderau lleol presennol neu gryfderau lleol sy'n dod i'r amlwg mewn technolegau, nwyddau a gwasanaethau carbon isel er mwyn manteisio ar y cyfle byd-eang cynyddol. | • Nifer y busnesau sy'n derbyn grantiau<br>• Nifer y darpar entrepreneuriaid a gafodd gymorth i fod yn barod i fentro i fyd busnes<br>• Nifer y cynlluniau datgarboneiddio a ddatblygwyd | 122<br>15<br>1 | • Lleihau nwyon tŷ gwydr (%) | 5 |
| **W31** - Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol. | • Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a gefnogwyd. | 2 | • Nifer y prosiectau sy'n deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariannwyd (%) | 1 |

**Sgorio ac Apeliadau**

Mae'r galw am y grant hwn yn debygol o fod yn uchel. Mae'n debygol na fydd digon o arian ar gael i gefnogi'r mwyafrif o geisiadau. Mae mecanwaith sgorio clir wedi'i roi ar waith a bydd y sgorau yn cael eu bwydo'n ôl i bob ymgeisydd llwyddiannus ac aflwyddiannus.  Nid oes proses apelio ar gyfer y grant.  Bydd y timau arfarnu yn ceisio asesu pob cais o fewn yr amserlenni arfaethedig ond oherwydd nifer y ceisiadau efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl.